**EPT-08-01 (min)**

# PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher 9 Mai 2001 |
| Amser: | 2:00 pm hyd 5:30 pm |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllogra 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

## Yn bresennol:

***Aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth:***

| | |
|---|---|
| Richard Edwards, Cadeirydd | Preseli Sir Benfro |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Rosemary Butler (dros Tom Middlehurst) | Gorllewin Casnewydd |
| David Davies | Mynwy |
| Geraint Davies | Rhondda |
| Sue Essex, Gweinidog dros yr Amgylchedd | Gogledd Caerdydd |
| Delyth Evans (dros John Griffiths) | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Helen Mary Jones | Llanelli |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

***Swyddogion:***

| | |
|---|---|
| Keith Bush | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| Bob Macey (eitem 3) | Pennaeth Is-adran Diogelu'r Amgylchedd |
| Phil Bishop (eitem 3) | Is-adran Diogelu'r Amgylchedd |
| Michael Trickey (eitem 3) | Yr Is-adran Cynllunio Ariannol |

| | |
|---|---|
| Denzil Jones (eitem 5) | Pennaeth yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |
| ***Yn bresennol:*** | |
| David Purchon (eitem 2) | Ymchwilydd Annibynnol |
| Roger Chaffey (eitem 2) | Rheolwr Prosiect, ymchwiliad Nantygwyddon |
| Joan Bailey (eitem 3) | Pennaeth Tîm FMPR Asiantaeth yr Amgylchedd, Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau |
| Barbara Young (eitem 3) | Prif Weithredwr, Asiantaeth yr Amgylchedd |
| Roger Thomas (eitem 3) | Cyfarwyddwr, Asiantaeth yr Amgylchedd – Cymru |
| Denys Morgan (eitemau 4 a 5) | Ymgynghorydd Arbenigol |
| ***Ysgrifenyddiaeth:*** | |
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

0.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau, swyddogion ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, eilyddion a datgan buddiannau**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Tom Middlehurst, yr oedd Rosemary Butler yn eilyddio drosto a John Griffiths, yr oedd Delyth Evans yn eilyddio drosto.

1.2 Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau o dan Reol Sefydlog 4.5 a gwnaethpwyd hynny fel a ganlyn:

- Mick Bates - partner mewn busnes ffermio;
- Geraint Davies – aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a fferyllydd.

1.3 Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau fod Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio 2001/2 wedi cwrdd ar 4 Mai. Penderfynwyd ar un achos, ond gofynnwyd am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r ail achos. Gan mai 11 Mai oedd y dyddiad terfyn o ran gwneud penderfyniad, gofynnodd y Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio am ymestyn oes y pwyllgor. Yr oedd y grym i ganiatáu estyniad wedi'i ddirprwyo i Bwyllgor yr Amgylchedd gan y Cynulliad, a phasiwyd y penderfyniad canlynol:

- *Mae'r Pwyllgor yn penderfynu amrywio'r dyddiad a bennwyd ym mharagraff 3 o benderfyniad y Cynulliad yn sefydlu Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio 2001/02 i 26 Hydref 2001*

**Eitem 2: Ymchwiliad Nantygwyddon: adroddiad cynnydd gan yr ymchwilydd** - EPT-08-01 (p 1)

2.1 Cyflwynodd David Purchon ei adroddiad, a gofynnodd am ymestyn amserlen yr ymchwiliad fel y gellid parhau i glywed tystiolaeth mewn sesiynau cyhoeddus. Awgrymodd y dylai ei adroddiad terfynol gael ei gyflwyno yn y cyfarfod cyntaf yn nhymor yr hydref. Yn dilyn cais gan drigolion lleol, awgrymwyd y dylai'r ganolfan adnoddau aros ar agor cyhyd ag y pery'r ymchwiliad.

2.2 Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau fod Awdurdod Iechyd Bro Taf wedi pwysleisio ei fod yn cydymffurfio'n llwyr â'r ymchwiliad. Yr oedd materion yn ymwneud â'r honiadau a wnaethpwyd yn erbyn yr Awdurdod yn cael sylw.

2.3 Trafodwyd y materion canlynol:

- Effeithiau iechyd – yr oedd angen astudiaeth drylwyr. Disgwylid i astudiaethau gan yr Uned Ystadegau Iechyd o fewn Ardaloedd Bach (SAHSU) a'r Ganolfan Gyfun dros Iechyd y Cyhoedd ac Epidemioleg gael eu cyhoeddi yn yr haf;

- Cyfrinachedd – yr oedd cyfrinachedd masnachol a meddygol wedi atal peth gwybodaeth rhag cael ei rhyddhau. O safbwynt gweithgarwch cwmni Rhondda Waste Disposal Ltd gynt, byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y gweinyddwr yn gofyn am ryddhau gwybodaeth;

- Braint – cadarnhaodd David Purchon fod pob tyst yn cael gwybod nad yw tystiolaeth a roddir mewn gwrandawiadau cyhoeddus yn freintiedig at ddibenion cyfraith difenwi.

4. Cytunodd y pwyllgor i ymestyn amserlen yr ymchwiliad, gan ystyried yr adroddiad

terfynol ar 17 Hydref 2001. Byddai'r ganolfan adnoddau ym Mhentre yn aros ar agor cyhyd ag y pery'r ymchwiliad.

**Eitem 3: Adolygiad Polisi a Rheolaeth Ariannol (FMPR) Asiantaeth yr Amgylchedd: y materion sy'n dod i'r amlwg** - EPT-08-01 (p 2)

3.1 Amlinellodd Michael Trickey broses yr adolygiad a thynnodd Joan Bailey sylw at y ddau brif fater sy'n dod i'r amlwg: atebolrwydd strategol yr Asiantaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol, a dadleuon o blaid ac yn erbyn cael Asiantaeth ar wahân i Gymru. Gwahoddwyd y pwyllgor i gynnig sylwadau ar y modd yr ymdriniwyd â'r adolygiad a'r materion a oedd yn dod i'r amlwg.

3.2 Croesawai Barbara Young y cyfle a roddwyd gan yr FMPR i adolygu perfformiad a gosod amcanion ar gyfer y dyfodol. Yr oedd hi a Roger Thomas o blaid gweld yr Asiantaeth yn parhau fel corff i Gymru a Lloegr ar y cyd.

3.3 Canolbwyntiodd y drafodaeth ar:

- Brofi nerth y dadleuon o blaid ac yn erbyn sefydlu Asiantaeth ar wahân i Gymru;
- Yr angen i drafod y materion sy'n dod i'r amlwg yng nghyd-destun yr adolygiadau atal llifogydd a'r adolygiad pum mlynedd o Gyngor Cefn Gwlad Cymru, gan ymchwilio i unrhyw swyddogaethau sy'n gorgyffwrdd gydag unrhyw gyrff eraill a noddir;
- Sut y gall datganiad rheoli'r Asiantaeth egluro ei hatebolrwydd, ar lefel y DU, y lefel genedlaethol a'r lefel leol;
- Pa un a oes adnoddau digonol ar gael i'r Asiantaeth i gyflawni ei chylch gwaith;
- Statws y cyngor a roddir gan yr Asiantaeth i awdurdodau cynllunio lleol;
- Newid yn yr hinsawdd.

3.4 Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod i'r cyfarfod, a chadarnhaodd y byddai'r pwyllgor yn ysgrifennu at y Gweinidog yn nodi ei farn am yr adroddiad unwaith y bydd rhan gyntaf yr FMPR wedi'i gyhoeddi.

**Eitem 4: Adolygiad Polisi Trafnidiaeth Gyhoeddus: Rapporteurs yn adrodd yn ôl ar ymweliadau**

4.1 Adroddodd Geraint Davies a Richard Edwards yn ôl yn fyr ar y prif wersi a ddysgwyd ar yr ymweliadau â Sheffield a Frankfurt.

- Sheffield – mae dalgylch Awdurdod Trafnidiaeth Teithwyr (PTA) De Swydd Efrog yn cwmpasu cymunedau trefol a gwledig a chymoedd, ac mae mewn ardal Amcan 1. Sefydlwyd y PTA drwy Ddeddf Seneddol ac fe'i cyllidir gan awdurdodau lleol. Mae gan Sheffield dram hynod fodern yn rhedeg ar dri llwybr, gydag 11 miliwn o deithwyr y flwyddyn yn teithio arno, a 22% yn llai o geir ar lwybrau'r tram erbyn hyn. Yr oedd y buddsoddiad llawn yn £240m – 1/3 grant, 1/3 credydau ar wahân i fasnachu a 1/3 credydau masnachu, a bydd yn system yn clirio'i chostau eleni;

- Frankfurt – yr oedd lefel y cyllido a'r strwythurau trefniadol yn eithriadol. Y prif wersi a ddysgwyd oedd budd canolfannau symudedd, a chyflwyno cystadleuaeth.

4.2 Câi copïau o'r adroddiadau manwl eu cyhoeddi ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol ar y we.

**Eitem 5: Adolygiad Polisi: trafodaeth (gweledigaeth a safonau ansawdd)** - EPT-08-01 (p 3)

5.1 Ar ôl cyflwyniad byr i adroddiad yr Ymgynghorydd Arbenigol (Atodiad A), gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i leisio eu barn, yn enwedig ar yr argymhellion a awgrymwyd (paragraff 7 o'r papur cysylltiol).

5.2 Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y materion canlynol:

- Targedau – profi'r rhagdybiaethau y tu cefn i rai o'r targedau a awgrymwyd yn yr adroddiad;

- Cynllunio a gweithredu – integreiddio'r strategaethau trafnidiaeth gyhoeddus rhanbarthol sy'n cael eu hawgrymu;

- Fforddioldeb – ar lefel genedlaethol a lefel bersonol/y teulu, a dichonoldeb masnachol gwasanaethau;

- Cynlluniau peilot – cefnogi cynllun peilot mewn perthynas â thrafnidiaeth ysgol;

- Diogelwch;

- Cynnydd yn nifer y teithwyr – cymhellion i gynyddu'r defnydd a wneir o drafnidiaeth gyhoeddus;

- Integreiddio – gofynion corfforol a gwybodaeth.

5.3 Cytunodd y pwyllgor fod yr argymhellion ym mharagraff 7 y papur i'w cynnwys yn yr adroddiad drafft a gâi ei gyhoeddi er mwyn ymgynghori â'r cyhoedd.

**Eitem 6: Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd** - EPT-08-01 (p 4)

6.1 Dywedodd y Gweinidog iddi ailagor y prif lwybrau cerdded ar yr Wyddfa yn swyddogol cyn penwythnos gwyl y banc, ac y byddai'n rhoi canllawiau pellach i'r awdurdodau lleol yn fuan. Yr oedd Cynllun Bellwin yn caniatáu i awdurdodau lleol hawlio ad-daliad oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol am gostau ychwanegol ffensys dros dro er mwyn darparu mynediad a mesurau eraill cysylltiol.

6.2 Cafwyd trafodaeth fer ar yr adroddiad, a chytunodd y Gweinidog i adrodd yn ôl i'r pwyllgor ar y materion canlynol:

- Penodiadau i Gyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Parciau Cenedlaethol – pa un a yw ystadegau am geisiadau gan rai sy'n siarad Cymraeg yn cael eu monitro ochr yn ochr â rhyw a chefndir ethnig;

- Clwy'r Traed a'r Genau – pa un a yw gwybodaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar lefelau derbyniol o ddeuocsinau ar gael;

- Cynllun Trafnidiaeth Werdd – pa un a oes gofyniad ar gontractwyr y Cynulliad Cenedlaethol i ddefnyddio tanwyddau gwyrdd, megis LPG.

**Eitem 7: Adroddiad Blynyddol 2000-01 a Rhaglen Waith 2001-02** - EPT-08-01 (p 5)

7.1 Cytunwyd ar yr Adroddiad Blynyddol a'r Rhaglen Waith yn amodol ar y newidiadau canlynol i'r rhaglen waith:

- Ei gwneud yn glir bod y prif flaenoriaethau yn cyfeirio at y cyfnod sy'n gorffen Rhagfyr 2001, nid 2002;

- Cynnwys adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd ar y Strategaeth Diogelwch y Ffordd sy'n cael ei datblygu, yn enwedig cynigion i sicrhau diogelwch llwybrau sy'n agos at ysgolion.

7.2 Nododd yr aelodau y câi'r pwyllgor gyfle hefyd i gyfrannu at adolygiad ynni y Pwyllgor Datblygu Economaidd.

7.3 Cytunodd y pwyllgor i gwrdd yn Aberhonddu ar 11 Gorffennaf.

**Eitem 8: Cofnodion cyfarfodydd 4 a 24 Ebrill** - EPT-06-01(min) ac EPT/ARD-07-01(min)

1. Mabwysiadodd y pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 4 a 24 Ebrill.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

9.1 Byddai cyfarfod nesaf y pwyllgor am 2.00 pm ddydd Mercher 23 Mai yn Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mai 2001**